



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2019 i 2020

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn gwahanol fformat, rhowch wybod i ni a byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i helpu.

## Ein Diben


Ein diben yw sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru ac i ddarparu gwell dyfodol i bawb.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi ein diben statudol, sy'n nodi bod yn rhaid i ni wneud y canlynol wrth arfer ein swyddogaethau:

- ymgynraedd at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru
- cymhwysu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i sicrhau bod ein cyfraniad at y saith nod llesiant mor fawr â phosibl.

## Nodau Llesiant



## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 i 2020

Datblygwyd ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i gynorthwyo darpariaeth ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyflwyno mewn un lle ein hamcanion a threfniadau eraill ar gyfer ymsefydlu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein diwylliant a phopeth yr ydym yn ei ddarparu. Mae'n cyfrannu at ein gweledigaeth ac wedi ei seilio ar ein gwerthoedd a datganiad polisi sy'n amlinellu ein hymrwymiad i gydraddoldeb. Mae'n cwmpasu ein holl swyddogaethau – gan gynnwys popeth yr ydym yn ei wneud mewn partneriaeth neu drwy gontract.

Ein hamcanion llesiant yw canolbwynt ein cynllun corfforaethol nesaf a byddwn yn defnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i'w bodloni. Wrth wneud hyn, byddwn yn blaenoriaethu ac yn dyrannu ein hadnoddau i sicrhau bod ein cyfraniad at y nodau llesiant mor fawr â phosibl er budd i Gymru gyfan.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn rhoi sylw i faterion er mwyn helpu i sicrhau:

- bod gennym ni ymddiriedaeth y cyhoedd
- bod pob cymuned yn cael profiad o wasanaeth sydd bob amser yn deg
- bod gennym weithlu sy'n adlewyrchu'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu
- ein bod yn cynnig cyfleoedd i alluogi ein pobl i sicrhau bod y cyfraniad y maent yn ei wneud at ein sefydliad a'n gwaith mor fawr â phosibl
- ein bod yn cynnig cyfle cyfartal i'r holl grwpiau mewn cymdeithas – i aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac i'r cyflogeion sy'n datblygu eu gyrfaedd

### Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2019 - 2020

Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn nodi, yn flynyddol, yr hyn yr ydym yn ei wneud yn gyffredinol i fodloni ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'n ddogfen fyw ac fe'i cyhoeddir yn dilyn adolygiad o Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2018/19, sydd ar gael yn Atodiad 1 ein [Hadroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb](#). Gellir diwygio camau neu ychwanegu camau pellach mewn ymateb i heriau newydd sydd o'n blaenau, a nodir trwy fonitro ac adrodd parhaus neu newidiadau i ddeddfwriaeth. Mae wedi ei strwythuro i adlewyrchu ein Cynllun Busnes 2019/20.

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar ein hamcanion cydraddoldeb strategol a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb blynyddol a dylid rhoi sylwadau i ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar glawr cefn y ddogfen hon.



## Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2019/20

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024

	Nod 1	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifol	<span style="color: red;">Coch</span> <span style="color: orange;">Oren</span> <span style="color: green;">Gwyrdd</span>
<b>1</b>	<p>Datblygu a rhoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru 2020 i 2024 ar waith.</p> <p>Rydym yn anelu at gael Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n ategu amcanion cyrff cyhoeddus eraill tra bod eu rhai hwy yn ategu ein hamcanion ni.</p>	<p>Cyd-weithio'n effeithiol gydag aelodau'r cyhoedd, cyrff cyhoeddus eraill a staff wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllunio</li> <li>• Ymgynghori</li> <li>• Drafftio</li> <li>• Ail-ymgyngkori</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Cyhoeddi</li> </ul>	<p><b>1</b> - Ffurio gweithgor gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a chynhyrchu cynllun llinell amser</p>	Mai 2019	Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Cynllunio'r Sefydliad	Gwyn
			<p><b>2</b> - Cynnal digwyddiadau ymgynghori ar y cyd ar gyfer y staff a'r cyhoedd ledled Cymru</p>	Hydref 2019	Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Cynllunio'r Sefydliad	Gwyn
			<p><b>3</b> Drafftio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynnal cyfnod adolygu cyhoeddus am 12 wythnos</p>	Ionawr 2020	Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Cynllunio'r Sefydliad	Gwyn
			<p><b>4</b> Cael cytundeb y Bwrdd i gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024</p>	Mawrth 2020	Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Cynllunio'r Sefydliad	Gwyn
			<p><b>5</b>Rhoi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024 ar waith</p>	Ebrill 2020	Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Cynllunio'r Sefydliad	Gwyn

## Asesu effaith a llywodraethu

	Nod 2	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifol	Coch Oren Gwyrdd
2	<p>Sicrhau bod dealltwriaeth dda o anghenion cydraddoldeb unigolion (y mae eu nodweddion wedi eu gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) a'u bod yn cael sylw.</p> <p>Er ein bod yn gweithio i ddarparu'r gorau y gallwn i bawb, rydym yn edrych yn benodol ar effeithiau posibl ar y rheini â nodweddion gwarchodedig ac rydym hefyd yn cynnwys y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach.</p>	<p>Ymgysylltu'n weithredol â phobl a chymunedau i ddeall yn well y rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau yr ydym yn eu darparu a, phan fo'n berthnasol, gweithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth o grwpiau gwarchodedig, yn fewnol ac yn allanol, a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â rhwystrau.</p> <p>Adrodd ar ein camau gweithredu a sut maent wedi cyflawni yn erbyn ein hamcanion a'n gwerthoedd cydraddoldeb.</p>	6 – Cofnodi, trwy ddull asesu effaith, ein hymgysylltiad â phobl a chymunedau i ddeall yn well y rhwystrau i gael mynediad at y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.	Mawrth 2020	Rheolwyr Prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru	Gwyn
			7 – Adolygu'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o ran cynllunio'r sefydliad yn barhaus a sicrhau nad ydym yn rhoi pobl dan anfantais	Hyd nes bod Cynllunio'r Sefydliad yn gyflawn	Bwrdd Prosiect Newid Sefydliadol	Gwyn
			Cyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn ar gydraddoldeb i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd	8 – Canol y flwyddyn ariannol	Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Cynllunio'r Sefydliad	Gwyn
				9 – Diwedd y flwyddyn ariannol		Gwyn

## #TîmCNC

	Nod 3	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifol	Coch Oren Gwyrdd	
3	I helpu ein pobl i fod yn fwy ymwybodol o'n hunain ac ymgysylltu'n weithredol wrth achredu, meincnodi ac ymgorffori ein gwerthoedd.	Asesu ein lefel o gydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau a gweithredu arno.	<b>10</b> –Ailadrodd ein hymarfer adrodd ar y bwloch cyflog rhwng y rhywiau, gan chwilio am broblemau o ran cydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau a mynd i'r afael â'r problemau hyn	Medi 2019	Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Cynllunio'r Sefydliad	Gwyn	
		Monitro cynnydd yn erbyn ein hymrwymiaidau o ran y Cynllun Hyderus o ran Anabledd.	<b>11</b> – Rydym yn parhau i gydymffurfio 100% â chynllun gwarantu cyfweiliad y Cynllun Hyderus o ran Anabledd	Mawrth 2020	Arweinydd y Tîm Recriwtio	Gwyn	
		Parhau i weithio tuag at ein achrediad Cyfeillion Dementia.	<b>12</b> – Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod yn 'Gyfaill Dementia' achrededig	Mawrth 2020	Arweinydd Cyfeillion Dementia	Gwyn	
		Bod yn rhan o Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2020.	<b>13</b> - Cyrraedd safle gwell ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle 2020	Ionawr 2020	Arweinydd Rhwydwaith Calon	Gwyn	
		Adolygu'r Rhaglen Cwsmeriaid i sicrhau ei fod yn cynnwys staff yn llawn.		<b>14</b> – Cynnal arolwg pwls ymhlith y staff	Medi 2019	Rheolwr y Rhaglen Cwsmeriaid	Gwyn
				<b>15</b> - Adrodd ar ganfyddiadau'r arolwg pwls	Rhagfyr 2019		Gwyn

## Ein hymwelwyr, cwsmeriaid a phartneriaid

	Nod 4	Cam gweithredu	Mesuradwy	Erbyn diwedd	Cyfrifol	Coch Oren Gwyrdd
4	Ymgorffori ystyriaethau ynghylch rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ym mhopeth a wnawn, gan gefnogi sut rydym yn gweithio ac ymgysylltu ag eraill i fynd i'r afael â heriau a manteisio ar gyfleoedd.	Adolygu mecanweithiau'r rhaglen cwsmeriaid er mwyn casglu sylwadau gan gwsmeriaid.	16 – Mae gan bob un o'r 14 prosiect asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar waith	Ebrill 2019	Rheolwr y Rhaglen Cwsmeriaid	Gwyn
			17 – Datblygu ac adrodd ar y Fframwaith Cynnwys Cwsmeriaid	Mawrth 2020		Gwyn
	Trwy'r gwaith hwn, bydd pobl Cymru yn gweld gwelliannau i iechyd a llesiant drwy weithio ar y cyd yn y sector cyhoeddus.	Rhoi'r gweithredoedd asesu cydraddoldebau ar waith o'n cyfleusterau hamdden allweddol.	18 – Llunio adroddiad ar y cynnydd a wnaed	Mawrth 2020	Cynghorydd Hamdden a Mynediad	Gwyn
			19 – Adrodd ar weithio gyda grwpiau cynrychioliadol i sicrhau defnyddioldeb gwybodaeth	Mawrth 2020		Gwyn

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwe, 9am – 5pm)  
[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

© Cyfoeth Naturiol Cymru  
Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

